

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Practis Deintyddol Malpas

Dyddiad y gweithgarwch: 16 Awst 2021

Dyddiad cyhoeddi: 20 Medi 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Malpas fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth eang o driniaethau a gwasanaethau preifat, a thriniaethau a gwasanaethau'r GIG.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig a'r rheolwr diogelwch ac ansawdd ar 16 Awst 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gfael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?
- Sut rydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Asesiad risg iechyd a diogelwch
- Asesiad risg COVID-19 y practis
- Polisi Glanhau
- Gweithdrefnau gweithredu safonol ¹Portman

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i amgylchedd y practis o ganlyniad i'r pandemig. Mae Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gyfer y staff a'r cleifion ar gael yn ogystal â manau diheintio dwylo ar hyd a lled y practis. Roedd amserlenni glanhau wedi cael eu diwygio fel bod modd glanhau'n amlach. Dywedwyd wrthym fod y practis yn diweddarau ei bolisiau a'i weithdrefnau yn unol â diweddariadau a chynghor gan gyrff allanol. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau a gyhoeddwyd yn y Weithdrefn Safonol ar gyfer rheoli gofal deintyddol cleifion nad ydynt wedi'u heintio â COVID-19 yng Nghymru.

Dywedwyd wrthym am y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 o fewn yr ardaloedd cymunedol a'r ystafelloedd triniaeth. Roedd y rhain yn cynnwys mesurau cadw pellter cymdeithasol a dim ond cleifion a oedd wedi trefnu apwyntiadau ymlaen llaw oedd yn gallu ymweld â'r practis. Mae sgriniau wedi'u gosod wrth ddesg y dderbynfa ac mae cadeiriau, cylchgronau a phosteri diangen wedi'u symud o'r ardal aros. Mae ardaloedd dynodedig ar gyfer gwisgo a diosg PPE ² ar waith ar gyfer y staff ac mae'r holl eitemau diangen wedi cael eu symud o'r deintyddfeydd.

Cyn apwyntiad, bydd y staff yn ffonio'r claf ac yn cwblhau holiadur sgrinio COVID-19. Dywedwyd wrthym fod neges e-bost yn cael ei hanfon at bob claf i'w atgoffa am ei apwyntiad,

¹ Mae Practisau Portman Dental Care yn cynnwys rhwydwaith o bractisau deintyddol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn meddu ar hunaniaeth annibynnol, ac mae pob un ohonynt yn rhan o deulu Portman Dental Care. Mae'r dull gweithredu lleol hwn yn cynnig buddiannau practis mwy personol, a reolir yn lleol, i gleifion, gyda'r sicrwydd o gael eu cefnogi gan grŵp deintyddol cenedlaethol blaenllaw.

² Gwisgo - rhoi cyfarpar diogelu personol (PPE) ymlaen; Diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol (PPE) i ffwrdd

a bod y neges hon yn cynnwys gwybodaeth am COVID-19 a thaith y claf. Mae'r mesurau hyn yn helpu i leihau faint o amser y mae claf yn ei dreulio yn y ddeintyddfa.

Pan fydd cleifion yn cyrraedd ar gyfer apwyntiadau, gofynnir iddynt a oes ganddynt unrhyw symptomau COVID-19. Rhoddir hylif diheintio dwylo iddynt pan fyddant yn mynd i mewn i'r practis. Rhaid i gleifion wisgo masg tan y byddant yn eistedd yn y ddeintyddfa, oni bai eu bod wedi'u heithrio rhag gwneud hynny. Mae un gadair aros ym mhob deintyddfa y gall cleifion ei defnyddio tan y byddant yn cael eu galw i mewn i'r ddeintyddfa.

Dywedwyd wrthym mai ychydig iawn o gleifion y practis nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Fodd bynnag, mae staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio y practis, ac mae gwasanaeth cyfieithu ar gael os oes angen.

Dywedwyd wrthym fod digon o gyfarpar ym mhob deintyddfa i gynnal Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Aerosol (AGP)³. Mae unedau awyru ac unedau tynnu aer wedi'u gosod yn y deintyddfeydd er mwyn hwyluso'r broses o gael gwared ag aer halogedig.

Cwtogwyd ar nifer yr apwyntiadau er mwyn sicrhau bod cyfnod segur⁴ digonol a digon o amser i ddiheintio'r ddeintyddfa rhwng cleifion. Nododd y staff nad oedd hyn wedi cael unrhyw effaith ar brofiad y cleifion na'r gofal yr oedd y cleifion yn ei gael. Dywedodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn teimlo bod y staff yn gweithio'n dda o fewn y cyfyngiadau a'r canllawiau a'u bod wedi addasu'n dda iddynt.

Gwelsom dystiolaeth o asesiad risg penodol ar gyfer COVID-19, a gwblhawyd ym mis Gorffennaf 2021. Dogfennwyd bod camau wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt. At hynny, gwelsom asesiad risg amgylcheddol y practis, a gwblhawyd yn 2018. Cwblhawyd y camau a nodwyd yn 2018.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dywedwyd wrthym mai Portmans sy'n cynnal yr asesiad risg amgylcheddol ar gyfer y practis deintyddol. Cafodd yr asesiad a drefnwyd ar gyfer 2019 ei ganslo o ganlyniad i COVID-19. Dywedwyd wrthym fod disgwyl i asesiad newydd gael ei gynnal yn 2021. Argymhellir y dylai'r asesiad hwn gael ei gynnal cyn gynted â phosibl. Awgrymir y dylai rheolwr y practis ddefnyddio'r asesiad blaenorol i gynnal asesiad dros dro tan y gellir cynnal yr asesiad swyddogol. Bydd hyn yn sicrhau y caiff mesurau a dulliau rheoli cyfredol eu dogfennu i flaenoriaethu unrhyw risgiau a pheryglon a nodwyd yn y practis.

³ Gweithdrefn feddygol yw gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol (AGP), a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r llwybr anadlol wrth drin unigolyn yr amheuir neu y gwyddys ei fod yn dioddef o haint a gaiff ei drosglwyddo, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy'r awyr neu drwy ddefnyddiau.

⁴ Cyfnod segur yw'r amser tawel yn y ddeintyddfa ar ôl gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Copi o'r archwiliad dihalogi WHTM01-05 diweddaraf
- Polisi glanhau
- Amserlenni Glanhau'r Deintyddfeydd
- Archwiliadau dyddiol o'r Awtoclafau
- Archwiliadau dyddiol o ddiheintydd y peiriant golchi

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom ddogfennau amrywiol ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys y canllawiau glanhau. Gwelsom dystiolaeth o gofnodion ac amserlenni glanhau'r practis ar gyfer dihalogi offer a chyfarpar deintyddol.

Dywedwyd wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ar gyfer atal a rheoli heintiau ac yn eu cyflawni. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y weithdrefn safonol ar gyfer practisau Portman Dental Care. At hynny, dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar PPE, gan gynnwys hyfforddiant ar fasgiau a gwisgo a diosg PPE.⁵

Dywedwyd wrthym pan fydd Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Aerosol yn cael eu cynnal, fod y galwadau brysbennu yn⁶ helpu i nodi'r cyfarpar y bydd ei angen. Caiff hyn ei baratoi ymlaen llaw i leihau nifer y staff sy'n mynd i mewn i'r ddeintyddfa neu'n ei gadael yn ystod y driniaeth. Dywedodd y staff wrthym fod nyrs redeg ar gael os oes angen unrhyw beth. Mae'r arferion hyn yn sicrhau bod llai o risg o haint yn ystod Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Aerosol.

Esboniodd y staff eu bod yn cysylltu â'r cleifion dros y ffôn cyn eu hapwyntiad ac yn gofyn

⁵ Gwisgo - rhoi cyfarpar diogelu personol (PPE) ymlaen; Diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol (PPE) i ffwrdd

⁶ Brysbennu yw'r drefn o flaenoriaethu gofal cleifion yn seiliedig ar salwch/anaf, difrifoldeb, prognosis a'r adnoddau sydd ar gael

cyfres o gwestiynau iddynt er mwyn penderfynu a oeddent mewn perygl o drosglwyddo'r feirws. Cafodd cleifion a oedd yn dangos symptomau neu'n aros am ganlyniad prawf COVID-19 gyfarwyddyd i aros gartref ac i beidio â mynychu'r practis.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis ddigon o PPE, bod gwiriadau stoc yn cael eu cynnal bob wythnos a bod unrhyw gyflenwadau gofynnol yn cael eu harchebu gan y rheolwr cofrestredig.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Mae'r canllawiau ar lanhau a gyflwynwyd yn cadarnhau y dylai fod gan Bractis Deintyddol Malpas ei bolisi glanhau ei hun, ac nid ydym wedi cael copi ohono. Felly, gwnaethom ofyn yn ystod yr alwad ansawdd i'r rheolwr cofrestredig anfon copi i AGIC.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Copi o adroddiad blynyddol y rheolwr cofrestredig (a baratowyd o dan Reoliad 16(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017)
- Polisi cydsyniad
- Cynllun parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff
- Archwiliad cardiau cofnodion
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Copi o'r datganiad o ddiben diweddaraf
- Copi o'r daflen wybodaeth i gleifion ddiweddaraf

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddiant, a oedd yn dangos cydymffurfiaeth â'r hyfforddiant gorfodol.

Roedd hyfforddiant rhai aelodau o'r staff ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol wedi dod i ben. Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o'r staff fynediad i system ar-lein sy'n dangos i unigolion pa hyfforddiant y mae angen iddynt ei gwblhau. Esboniodd y rheolwr cofrestredig y broses ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant yn gyfredol, gyda'r staff yn parhau i ddefnyddio pecynnau e-ddysgu⁷ ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

⁷ Dysgu a gynhelir drwy gyfryngau electronig, ar y rhyngrwyd fel arfer.

Dywedwyd wrthym fod pob digwyddiad yn cael ei gofnodi a'i rannu â'r staff ym mhrif swyddfa Portman. Mae'r rheolwr cofrestredig yn goruchwyllo unrhyw ddigwyddiadau, ond caiff ei gefnogi gan y brif swyddfa i gwblhau unrhyw waith papur. Defnyddir digwyddiadau fel adnodd i wella arferion a chaiff y rhain eu rhannu â'r staff drwy gyfarfodydd tîm. Dywedwyd wrthym fod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau i asiantaethau rheoleiddiol gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Roedd unrhyw ganllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael eu rhannu â'r staff drwy gyfarfodydd tîm, negeseuon e-bost a'u grŵp ap negeseua.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn barhaus. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y dogfennau archwilio a ddarparwyd gyda'r hunanasesiad, a oedd yn cynnwys archwiliad o gofnodion clinigol, archwiliad o ansawdd a diogelwch pelydr-X, ac archwiliad dihalogi WHTM01-05.

Cawsom sampl o bolisiau a gweithdrefnau a oedd ar waith yn y practis. Caiff yr holl bolisiau eu llunio ym mhrif swyddfa Portman, ac maent yn cynnwys taflen rheoli dogfennau sy'n dangos y fersiwn ddiweddaraf a pha newidiadau a wnaed.

Esboniwyd y broses o wirio'r cyfarpar brys a'r meddyginiaethau. Cyfrifoldeb y staff yw cynnal y gwiriadau wythnosol, cofnodi'r canfyddiadau ac archebu stoc yn ôl yr angen.

Gwnaethom ddarllen y datganiad o ddiben⁸, a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen. Roedd angen diweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion⁹.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Nid oedd y daflen wybodaeth i gleifion a gyflwynwyd yn cynnwys pob adran o wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau deintyddol. Felly, gofynnwyd i'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddarau'r ddogfen a chyflwyno fersiwn ddiwygiedig i AGIC.

Nid oedd adroddiad blynyddol y rheolwr cofrestredig yn cynnwys yr holl feysydd y mae angen eu cynnwys yn unol â'r rheoliadau deintyddol. Felly, rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gynnal asesiad pellach o'r gwasanaeth a sicrhau y caiff yr holl feysydd sy'n ofynnol o dan Reoliad 16 (3) eu cynnwys.

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth inni i ddangos bod y darparwr cofrestredig wedi ymweld â'r gwasanaeth yn unol â Rheoliad 23. Mae angen cynnal yr ymweliadau hyn yn flynyddol a dylid anfon yr adroddiad sy'n deillio o'r ymweliad i AGIC.

⁸ Ystyr "datganiad o ddiben" ("*statement of purpose*") yw'r datganiad a luniwyd yn unol â rheoliad 5(1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) ac Atodlen 1.

⁹ Gwybodaeth fel sy'n ofynnol gan Atodlen 2 o'r rheoliadau uchod.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Practis Deintyddol Malpas

Dyddiad y gweithgarwch: 16 Awst
2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff asesiad risg iechyd a diogelwch cyfredol ei gynnal cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn sicrhau y caiff mesurau a dulliau rheoli cyfredol eu dogfennu i flaenoriaethu unrhyw risgiau a pheryglon a nodwyd yn y practis.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13 (1) (b) ac 16 (1) (a) (b) Safonau Iechyd a Gofal - Safon 2.1 rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch			
2	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig anfon	Rheoliadau			

	copi o bolisi glanhau'r practis i AGIC.	Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 8 (1) (m) Safonau Iechyd a Gofal - Safon 2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi			
3	Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddiweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion a sicrhau y caiff yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliad eu cynnwys. Rhaid anfon copi o'r ddogfen ddiwygiedig i AGIC.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 5 (1) a (2)			
4	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal asesiad pellach o'r gwasanaeth a sicrhau y caiff yr holl feysydd sy'n ofynnol o dan Rheoliad 16 (3) eu cynnwys.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 23			
5	Rhaid i'r darparwr cofrestredig ymweld â'r gwasanaeth yn unol â Rheoliad 23. Mae angen cynnal yr ymweliadau hyn yn flynyddol a dylid anfon yr adroddiad sy'n deillio o'r ymweliad i AGIC.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 23			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw:

Dyddiad: